**Ceisiadau gan rieni am absenoldeb yn ystod y tymor ar gyfer gwyliau**

Cytunwyd gan Adran Gyfreithiol Addysg ym mis Mehefin 2014.

Mae'r awdurdod lleol yn cefnogi'n llwyr yr ymgyrch genedlaethol i gynyddu presenoldeb ysgol, gan gydnabod y cysylltiad hanfodol rhwng presenoldeb a chyrhaeddiad. O'r data presenoldeb hyd yn hyn, mae eisoes yn amlwg bod y strategaeth, sef mynd ati i annog rhieni i beidio â mynd ar wyliau yn ystod y tymor, wedi arwain at welliant sylweddol mewn presenoldeb ysgolion ar draws Dinas a Sir Abertawe.

Felly, mae'r awdurdod lleol yn bwriadu parhau â'r strategaeth hon fel rhan o'i ymgyrch i gynyddu presenoldeb ysgol. Er y caiff ceisiadau unigol eu hystyried, ni fydd y pennaeth yn caniatáu absenoldeb oherwydd gwyliau yn ystod y tymor, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol. Mae hyn yn golygu y bydd absenoldeb oherwydd gwyliau disgyblion yn ystod y tymor yn cael ei gofnodi fel absenoldeb heb ganiatâd.